

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
28/11/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Y Biblinell Nwy Naturiol Hylifol
The Liquefied Natural Gas Pipeline

C11 David Lloyd: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gydag aelodau'r Cabinet parthed y biblinell nwy naturiol hylifol? OAQ2111(FM) [W]

Q11 David Lloyd: What recent discussions has the First Minister had with Cabinet Ministers regarding the liquefied natural gas pipeline? OAQ2111(FM) [W]

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i wrthod caniatâd i ffrwydro yn Nhrebannws.

The First Minister: The Assembly Government welcomes the decision of the Secretary of State for Trade and Industry to refuse permission to blast at Trebanos.

Cyllido Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Funding Culture, Welsh Language and Sport

C12 Owen John Thomas: Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer cyllido diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yn y flwyddyn 2007-08? OAQ2090(FM) [W]

Q12 Owen John Thomas: What are the Welsh Assembly Government's plans with regard to the funding of culture, Welsh language and sport in 2007-08? OAQ2090(FM) [W]

Y Prif Weinidog: Mae'r gyllideb ddrafft yn argymhell buddsoddiad sylweddol arall ym maes diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon, gyda chynnydd o £11.7 miliwn y flwyddyn nesaf—cynnydd o 10 y cant. Bydd yr arian yn cefnogi ein polisiau lleol drwy gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a hyrwyddo cyfleoedd diwylliannol a rhagoriaeth i bawb.

The First Minister: The draft budget proposes another significant investment in culture, Welsh language and sport, with an increase of £11.7 million next year—an increase of 10 per cent. The money will support our key policies to increase the level of participation in physical activity, and promote cultural access and excellence for all.

Tanau yn y Cartref
Domestic Fires

Q13 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to protect vulnerable individuals from domestic fires?

C13 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i amddiffyn unigolion agored i niwed rhag

OAQ2097(FM)

tanau yn y cartref? OAQ2097(FM)

The First Minister: Since devolution in 2004, the Assembly Government has put in place policies aimed at protecting all people from fire and other emergency incidents. The fire and rescue national framework forms our strategy for delivering the service, setting out our expectations and what support the service can expect from us.

Y Prif Weinidog: Ers datganoli yn 2004, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi polisïau ar waith sydd wedi eu hanelu at amddiffyn pawb rhag tanau a digwyddiadau brys eraill. Mae'r fframwaith cenedlaethol tân ac achub yn ffurfio ein strategaeth ar gyfer darparu gwasanaeth, nodi ein disgwyliadau a pha gymorth y gall y gwasanaeth ei ddisgwyl gennym.

Dyfodol Pontydd Hafren The Future of the Severn Bridges

Q14 Michael German: What discussions has the Welsh Assembly Government had on the future of the Severn bridges? OAQ2103(FM)

C14 Michael German: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal ynglŷn â dyfodol pontydd Hafren? OAQ2103(FM)

The First Minister: Transport Wales officials attend regular liaison meetings with the Highways Agency, InterRoute, Severn River Crossing Plc and the police to discuss cross-cutting issues relevant to the operation of both bridges.

Y Prif Weinidog: Mae swyddogion Trafnidiaeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda'r Asiantaeth Priffyrdd, InterRoute, Severn River Crossing Plc a'r heddlu i drafod materion trawsbynciol sy'n berthnasol i weithrediad y ddwy bont.

Gwasanaethau y tu allan i Oriau Arferol Out-of-hours Services

Q15 Jonathan Morgan: Will the First Minister make a statement on the provision of out-of-hours services in Cardiff? OAQ2112(FM)

C15 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd? OAQ2112(FM)

The First Minister: The out-of-hours service at Cardiff has been commissioned by the local health board since September 2004. The transition from a GP-led service to an LHB-led service had a difficult beginning but is now successful but requires continuous monitoring by the local health board.

Y Prif Weinidog: Cafodd y gwasanaeth y tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd lleol ers mis Medi 2004. Cafodd y cyfnod pontio o wasanaeth a oedd yn cael ei lywio gan feddygon teulu i wasanaeth sy'n cael ei lywio gan y bwrdd iechyd lleol ddechrau anodd, ond mae yn awr yn llwyddiannus ond bod angen ei fonitro'n barhaus gan y bwrdd iechyd lleol.